**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

**National Assembly for Wales**
Public Accounts Committee

Dr Andrew Goodall
Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau
Cymdeithasol/Prif Weithredwr GIG Cymru
Llywodraeth Cymru

20 Mehefin 2018

Annwyl Dr Goodall

**Amseroedd aros y GIG ar gyfer gofal dewisol yng Nghymru a gwasanaethau orthopedig**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 6 Mehefin, a drafodwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 18 Mehefin.

Fel y gwyddoch, mae'r Pwyllgor wedi bod yn trafod y wybodaeth ddiweddaraf am y materion hyn o ganlyniad i argymhelliad yn Adroddiad Etifeddiaeth y Pwyllgor blaenorol. Mae'r Aelodau'n falch o nodi bod cynnydd da wedi'i wneud o ran lleihau amseroedd aros i gleifion yn y ddau faes.

Mae'r Aelodau'n ymwybodol bod Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi rhaglennu gwaith yn rhaglen Gwerth am Arian ei GIG lleol ar gyfer dechrau 2019, i asesu cynnydd yn erbyn ei argymhellion blaenorol ar Wasanaethau Orthopedig. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn ystyried rhinweddau rhywfaint o waith dilynol ar amseroedd aros fel rhan o waith datblygu blaenraglen waith yr Archwilydd Cyffredinol newydd. O ystyried hyn, mae aelodau'r Pwyllgor yn fodlon nad oes angen rhagor o wybodaeth arnynt am y materion hyn ar hyn o bryd.

Yn gywir,

**Nick Ramsay AC**
**Cadeirydd**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddArchwilio@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddArchwilio
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddPAC@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddPAC
0300 200 6565